| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **13 Mai 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Cynghorydd Barbara Smith**<br>**Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad**<br><br>**Cyng Hugh H Evans**<br>**Arweinydd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Nicola Kneale a Sharon Evans** |
| **Teitl:** | **Cynllun Corfforaethol 2012-17, Dogfen Gyflawni Blwyddyn 3 (2014-15), a Blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol Aelodau'r Cabinet i'w gyflwyno erbyn 2017** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Dogfen Gyflawni Blwyddyn 3 (2014-15) ar gyfer y Cynllun Corfforaethol 2012-17 (Atodiad 1), a Blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol Aelodau'r Cabinet i'w gyflwyno erbyn 2017 (Atodiad 2).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae angen penderfyniad i gymeradwyo'r fersiwn drafft terfynol o Ddogfen Gyflawni Blwyddyn 3 y Cynllun Corfforaethol, ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn. Caiff Dogfen Gyflawni ei chreu ar gyfer pob blwyddyn o'r Cynllun Corfforaethol. Ei bwrpas yw amlinellu rhai o'r prosiectau allweddol a fydd yn cael eu dechrau a / neu eu darparu yn ystod y flwyddyn ariannol ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau, gyda'r bwriad o ddangos sut mae'r Cynllun Corfforaethol yn effeithio ar y gwaith yr ydym yn ei wneud. Bydd y ddogfen yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan fel ei bod ar gael ar gyfer ein rheoleiddwyr a'r cyhoedd.

2.5 O ran blaenoriaethau Aelodau'r Cabinet ar gyfer 2017 (Atodiad 2), gofynnir i'r Cyngor nodi'r Mesurau Llwyddiant mae'r Aelodau Cabinet wedi'u nodi yn eu portffolios i'w cyflawni yn erbyn pob un o flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir, yn amodol ar unrhyw newidiadau y cytunir arnynt, bod yr Aelodau'n cymeradwyo drafft terfynol y Ddogfen Gyflawni (Atodiad 1) er mwyn iddo gael ei gyfieithu a'i gyhoeddi.

3.2 Bod y Cyngor yn nodi cynnwys Atodiad 2 mewn perthynas â phortffolio pob Aelod Cabinet.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

4.1 Pwrpas cynhyrchu a chyhoeddi Dogfen Gyflawni Cynllun Corfforaethol blynyddol (Atodiad 1) yw cadarnhau’r gweithgareddau y bydd y cyngor yn eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei Gynllun Corfforaethol. Mae'r gweithgareddau yn deillio o Gynlluniau Gwasanaeth a Rhaglenni, a bydd diweddariadau cynnydd yn cael eu casglu drwy ein systemau rheoli perfformiad. Bydd cynnydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a'r Cabinet drwy ein Hadroddiadau Perfformiad Chwarterol. Bydd gwerthusiad cyffredinol o gynnydd y Cyngor wrth gyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol a gyhoeddir bob mis Hydref. Mae'r gweithgareddau a amlygwyd o fewn y Ddogfen Gyflawni Blwyddyn 3 wedi’u cynllunio i gael effaith gadarnhaol ar ein Blaenoriaethau Corfforaethol a chanlyniadau cysylltiedig (manteision ar gyfer ein cymunedau).

4.2 Mae gan y Cyngor Gynllun Corfforaethol clir ac uchelgeisiol sydd wedi cael ei ddatblygu yn dilyn ymgynghori ac ymgysylltu helaeth, ac yn crynhoi'r Canlyniadau a ddisgwylir yn erbyn pob un o'r saith blaenoriaeth ar gyfer gweddill tymor hwn y Cyngor. Yn unol â phapur y Prif Weithredwr 'Sharpening Our Act' (lle amlygir yr angen i adolygu a chryfhau mesurau llwyddiant y Cyngor ar gyfer y Cynllun Corfforaethol), gofynnwyd i bob Aelod Cabinet nodi a chytuno gyda'u Penaethiaid Gwasanaeth Fesurau Llwyddiant ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau y maent yn gyfrifol amdanynt (ar y cyd). Mae Atodiad 2 yr adroddiad hwn yn rhoi manylion am ba lefel o lwyddiant mae’r Cyngor yn disgwyl ei weld erbyn 2017.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r Ddogfen Gyflawni (Atodiad 1) wedi’i chynllunio'n benodol i ddangos pa weithgaredd mae’r cyngor wedi’i gynllunio ar gyfer 2014-15 i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol.

5.2 Mae blaenoriaethau'r Aelodau Cabinet yn diffinio’r hyn mae'r Cyngor yn anelu at gyflawni erbyn 2017 ar gyfer mesurau allweddol o fewn pob portffolio Aelod Cabinet.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae'r Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn cynnwys strategaeth ariannol pum-mlynedd sy'n amlinellu'r buddsoddiad cyfalaf a ragwelir sydd ei angen i gyflawni'r blaenoriaethau. Datblygwyd y strategaeth hon yn dilyn gweithdy Aelodau ar 11 Medi 2012 dan arweiniad y Pennaeth Cyllid ac Asedau.

6.2 Mae'r Ddogfen Gyflawni Blwyddyn 3 (Atodiad 1) hefyd yn cynnwys adran ar oblygiadau ariannol ar gyfer 2014-15.

6.3 Nid oes unrhyw gost yn gysylltiedig â chyflawni Canlyniadau 2017 yn Atodiad 2.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.

7.1 Cynhaliwyd asesiad o effaith y Cynllun Corfforaethol ar gydraddoldeb a chafodd ei gyflwyno i'r Cyngor ar 9 Hydref 2012.

7.2 Nid oes angen Asesiad Effaith Cydraddoldeb penodol ar gyfer yr adroddiad hwn ei hun, ond bydd angen i Benaethiaid Gwasanaeth ystyried yr effaith ar gydraddoldeb o weithgareddau unigol a grybwyllir yn y ddogfen er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael unrhyw effaith andwyol anghymesur ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

7.3 Mae rhai o'r gweithgareddau, er enghraifft ffurfioli cynlluniau ar gyfer darparu cyrbiau is, yn cael effaith cadarnhaol ar gydraddoldeb ac maent wedi'u cynllunio i ymateb i Asesiad Effaith Cydraddoldeb gwreiddiol y Cynllun Corfforaethol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae'r Ddogfen Gyflawni (Atodiad 1) wedi cael ei datblygu o weithgaredd a nodwyd o Gynlluniau Gwasanaeth drafft ar gyfer 2014-15 ac o Gynlluniau Rhaglen. Mae'r gweithgareddau wedi eu diffinio a'u mireinio ymhellach drwy drafodaethau gyda phersonél allweddol sy'n gysylltiedig â'u cyflawni. Dosbarthwyd drafft i'r UDA ar gyfer sylwadau, ac mae ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein cyn ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

8.3 Ymgynghorwyd ar Atodiad 2 gyda'r UDA.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys cynlluniau gwariant lefel uchel sy'n cwmpasu 2012-17, ac yn gosod y cyd-destun ar gyfer y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r buddsoddiad a amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol yn uchelgeisiol ond yn angenrheidiol os yw'r Cyngor am barhau i wella gwasanaethau allweddol. Mae'r Cyngor yn wynebu rhai blynyddoedd anodd gydag amgylchedd ariannol heriol ac os bydd angen, mae'r cynlluniau yn ddigon hyblyg i gael eu newid pe bai'r sefyllfa ariannol yn newid.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Nid oes unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Swyddogaeth y Gofrestr Risg Corfforaethol a'r Gofrestr Risg Gwasanaethau yw dynodi (a rheoli) digwyddiadau posibl o risg a allai olygu na fyddai'r cyngor yn gallu cyflawni ei Gynllun Corfforaethol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella (2010), sy'n cael ei gefnogi gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.